

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Dyddiad: 13 Ionawr 2016

Amser: 11:00

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae
Caerdydd

Teitl: Cais i roi gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft
2016-17 gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth
Leol

Diben

1. Darparu gwybodaeth am Gyllideb Ddrafft 2016-17 mewn perthynas â'r Gymraeg yn unol â chais y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Amseru

2. Cyhoeddwyd y gyllideb drafft ar 8 Rhagfyr.

Ymateb

3. Darperir y wybodaeth ganlynol yn y drefn a nodwyd yn y llythyr comisiynu dyddiedig 2 Tachwedd 2015 o dan y penawdau canlynol:

- **Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ar gyfer ariannu'r Gymraeg**
- **Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu**
- **Polisiâu allweddol**
- **Aseidiadau o'r effaith ar y Gymraeg**
- **Gwariant Ataliol**
- **Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth**

Llinellau Gwariant Unigol yn y Gyllideb ar gyfer ariannu'r Gymraeg

4. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r Camau Gweithredu sy'n ymwneud ag ariannu'r Gymraeg:

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)		2015-16	2016-17 (drafft)
		£000	£000
BEL 5164	Cymraeg mewn Addysg	18,599	18,681
BEL 6020	Y Gymraeg	5,259	3,913
BEL 6021	Comisiynydd y Gymraeg	3,390	3,051
	Cyfanswm	27,248	25,645

Noder: Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys £825k a drosglwyddwyd o BEL 6020 i BEL 5164

5. Diben **BEL 5164** yw gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys:

- cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
- darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol
- darparu hyfforddiant Cymraeg drwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg ail iaith;
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;

- hyrwyddo trosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd;
 - gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r Strategaeth.
6. Diben **BEL 6020** yw ategu nodau Strategaeth y Gymraeg *iaith fyw: iaith byw a'r datganiad polisi iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen*, sef:
- Annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
 - Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
 - Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned
 - Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
 - Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
 - Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith
7. Diben **BEL 6021** yw ariannu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau a phwerau eang sy'n cynnwys:
- gweithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
 - gosod dyletswyddau ar unigolion a gwmpesir gan y Mesur i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg
 - cynnal ymchwiliadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd
 - ymchwilio i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolyn i gyfathrebu ag unigolyn arall yn Gymraeg
 - hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn enwedig yn y trydydd sector a'r sector preifat
8. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu ein blaenoriaethau, ond mae wedi'i llywio gan benderfyniadau Llywodraeth y DU. Mae Cyllideb Cymru £1.4 biliwn yn llai nawr nag yn 2010-11 gyda'r setliad yn parhau i leihau mewn termau real 3.6 y cant rhwng 2015-16 a 2019-20. Roeddem yn gwybod y byddai ein cyllideb yn llai mewn termau real ond nid oeddem yn gwybod faint yn llai. Yr hyn a wyddem, wrth gwrs, yw nad yw'r galw am wasanaethau na'r pwysau arnynt yn lleihau mewn ymateb i gyni cyllidol.
9. Rydym wedi seilio ein penderfyniadau gwario ar ddadansoddiad o ofynion ac anghenion mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol sydd yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Yn yr hinsawdd ariannol heriol rydym wedi ceisio canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau sy'n seiliedig ar asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf a lliniaru effeithiau cyni cyllidol lle na ellir eu hosgoi.
10. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau dyfodol yr iaith ac wedi cyfyngu'r gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm Cyllideb y Gymraeg i 5.9% yn 2016-17 drwy ddyrannu £1.2 miliwn i gefnogi'r Gymraeg yn y Gymuned, drwy flaenoriaethu gweithgarwch i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chaffael iaith a chodi safonau. Fodd bynnag, nid yw arian ar ei ben ei hun yn sicrhau y bydd yr iaith yn parhau i ffynnu a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau partner er mwyn gosod sylfaen gadarn i'r iaith yn y dyfodol.

11. Er mwyn cael copi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am ddarpariaeth gyllidebol i ategu'r broses o weithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol (WESPS), gweler Atodiad 1.

Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â'r Gymraeg

12. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.
13. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru (y mae un ohonynt yn cynnwys '[Cymru]... lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'), ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod gyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu Gwasanaethau. Mae dull gweithredu o'r fath yn hanfodol bwysig i'r Gymraeg sy'n faes polisi trawsbynciol.

Polisiau allweddol

Cyflawni Iaith Fyw: Iaith Byw a Bwrw Mlaen

14. Caiff ein gwariant ei gynllunio yn unol â'r gweithgareddau a nodir yn Strategaeth y Gymraeg, dogfen bolisi Bwrw Mlaen a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, fel y nodwyd ym mharagraffau 5-7 isod. Bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd oherwydd y sefyllfa ariannol dynn iawn.

Ailflaenoriaethu arian

15. O ran effaith ailflaenoriaethu arian o dan ddogfen Bwrw Ymlaen, roedd ailflaenoriaethu arian o faes Cymraeg i Oedolion er mwyn hybu'r iaith yn yr economi a'r gymuned yn benderfyniad anodd. Bydd y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y gweinyddir Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys sefydlu endid cenedlaethol newydd, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd a fydd yn lleihau'r effaith rywfaint yn y dyfodol.
16. Rhoddwyd £750,000 o arian ychwanegol i'r Mentrau Iaith yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael er mwyn galluogi'r Mentrau i wneud eu gwaith. Y brif flaenoriaeth oedd sicrhau arian sylfaenol ar gyfer pob un o'r Mentrau. Mae Mentrau Iaith Cymru hefyd wedi cael arian ychwanegol er mwyn

cefnogi gwaith y Mentrau ar lawr gwlad, gyda'r nod o godi safonau a datblygu rhaglen farchnata a datblygu staff.

17. Sefydlwyd cynllun grant Bwrw Mlaen yn 2014-15 a rhoddodd bwyslais ar gyflawni prosiectau arloesol newydd. Ariannwyd cyfanswm o naw prosiect yn 2015-16. Isod ceir enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd:

- **Menter Bro Dinefwr** - Prosiect newyddiaduraeth cymunedol yn ardal Dinefwr sy'n gweithio gyda'r papurau bro lleol a nifer o sefydliadau cymunedol er mwyn creu prosiect hypernewyddion cymunedol drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- **Hunaniaith** - Prosiect Cymraeg yn y Gweithle – sydd â'r nod o hybu a chefnogi'r Gymraeg o fewn nifer fawr o weithleoedd a busnesau yng Ngwynedd
- **Menter Môn, Rhwydwaith Perfformwyr Ynys Môn** – prosiect sydd â'r nod o greu rhwydwaith o berfformwyr ifanc ar Ynys Môn a fydd yn eu tywys a'u chefnogi drwy'r broses o ymsefydlu fel perfformwyr.

18. Sefydlwyd cynllun grant newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn 2015-16 er mwyn sicrhau bod sefydliadau sy'n cael arian grant yn gwella eu prosesau cynllunio ac yn cydweithredu'n well. Mae'r cynllun grant hefyd yn pwysleisio bod angen datblygu prosiectau sy'n seiliedig ar fylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Bydd y cynllun grant newydd ar waith o fis Ebrill 2016.

Cyllid ar gyfer y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion

19. Yn ogystal â'r gyllideb benodol ar gyfer y Gymraeg, caiff symiau o arian eu gwario ar y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion. Yn aml, caiff arian o'r fath ei brif ffrydio mewn rhaglenni a phrosiectau ac ni ellir ei nodi ar wahân. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau o arian dynodedig sydd wedi'i anelu'n benodol at gefnogi'r Gymraeg, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y corff annibynnol sy'n goruchwylio, yn rheoli ac yn datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru - yn ogystal ag arian penodol o fewn y portffolio Datblygu Economaidd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Chomisiynydd y Gymraeg

20. O ran dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft, gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a chyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, mae'r sefyllfa ariannol heriol a wynebir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn golygu bod yn rhaid gwneud arbedion ym mhob maes polisi. Ym mlaen ein meddwl roedd yr angen i ddiogelu gweithgarwch sydd â'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau. Felly, bu'n rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd i leihau cyllideb Comisiynydd y Gymraeg 10%. Mae'r lleihad hwn wedi'i gymhwyso'n gyson at bob un o'r Comisiynwyr.

Cyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

21. Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys Rhaglen Weithredu bum mlynedd a thargedau penodol pum mlynedd a thargedau 10 mlynedd dangosol yn seiliedig ar ddeilliannau, sydd wedi'u defnyddio i fonitro cynnydd o

ran gweithredu'r Strategaeth. Caiff gwariant ei gynllunio yn unol â'r gweithgareddau a nodir yn Rhaglen Weithredu'r Strategaeth a chofnodir cynnydd yn erbyn y gweithgareddau hyn yn Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

22. Mae gwerthusiad cynhwysfawr o'r Strategaeth wedi'i gynnal a disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Bydd y gwerthusiad hwn yn pennu'r cyfeiriad yn y dyfodol a bydd y dyraniad cyllidebol sy'n cefnogi Addysg cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu hyn.
23. Gan fod y Gymraeg yn thema drawsbynciol, yn ogystal â'r dyraniad cyllidebol hwn, mae adrannau eraill yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yn y system addysg. Er na ellir ei fesur yn hawdd, mae cyfanswm y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg mewn addysg yn sylweddol uwch.

Y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu polisiâu a gwerthuso'r gwaith o'u gweithredu

24. Gan droi at weithredu polisiâu, caiff arian a ddosberthir i bartneriaid er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ei reoli gan Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gweithdrefnau arferol, caiff costau sy'n gysylltiedig ag arian o'r fath eu hasesu gan swyddogion fel rhan o'r broses o wneud cais a gwaith monitro grantiau arferol. Mae ystyriaethau o ran gwerth am arian bob amser yn rhan annatod o bob un o'n cynlluniau grant.
25. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y datganiad polisi, *iaith fyw: iaith byw - Bwrw Mlaen*, mae Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y Strategaeth wedi'i baratoi. Mae'r fframwaith hwn yn nodi nifer o gwestiynau ymchwil er mwyn ein helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar fywiogrwydd yr iaith ac effeithiolrwydd ymyriadau cynllunio iaith.
26. Fel rhan o'r gwaith hwn, y llynedd gwnaethom gomisiynu Brifysgol Bangor i arwain astudiaeth ymchwil o'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Nod yr astudiaeth hon yw ystyried cwestiynau ymchwil sy'n ymwneud â'r ffactorau sy'n cyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol, gallu cymunedau i integreiddio dysgwyr Cymraeg a phriodoldeb ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio ieithyddol. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ym mis Hydref. Er nad yw'n werthusiad o effeithiolrwydd y rhaglenni a ariennir gennym i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac er nad oedd yn cynnwys asesiad o werth am arian, mae'n gyfraniad defnyddiol at ein dealltwriaeth o'r ffordd y defnyddir y Gymraeg mewn cymunedau gwahanol. Bydd hyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o lwyddiant agweddau ar y gwaith a wnaed i weithredu Bwrw Mlaen yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth.
27. Yn hyn o beth mae'n bwysig cydnabod bod heriau yn gysylltiedig â deall y cysylltiad rhwng ymyriadau neu raglenni penodol ar y naill law ac ymddygiad ieithyddol ar y llaw arall. Mae cynllunio ieithyddol yn weithgaredd amlochrog ac mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar fywiogrwydd yr iaith yn gymhleth iawn yn gyffredinol. Mewn rhai achosion rydym hefyd yn ymdrin â ffactorau neu amgylchiadau lle mae newid yn debygol o ddigwydd dros amser – bydd rhai o'r

newidiadau rydym yn ceisio eu cyflawni (er enghraifft newid agweddau ac arferion) yn gofyn am ymdrechion dros sawl blwyddyn.

28. Roedd Bwrw Mlaen hefyd yn cynnwys £2.25m o arian cyfalaf er mwyn sefydlu 10 canolfan iaith. Y nod oedd helpu i ddatblygu prosiectau strategol er mwyn helpu i gyflawni agenda polisi'r Gymraeg gyda phwyslais ar ddarparu'r sail i brosiectau cymunedol fod yn hunangynhaliol.

29. O ran canlyniadau'r arian, fel rhan o'r amodau ariannu, rydym wedi gofyn am gael adroddiad cloi o fewn 18 mis i'r dyddiad y cafodd buddiolwyr yr arian er mwyn asesu llwyddiant y canolfannau. Bydd yr adroddiadau hyn yn ymdrin â'r canlynol:

- nodau ac amcanion y prosiect
- sut y bydd y nodau a'r amcanion yn cyfrannu at nodau a meysydd strategol Strategaeth y Gymraeg, 'laith fyw: iaith byw' a pholisi 'Bwrw Mlaen'
- tystiolaeth o gyflawniadau (gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid a buddiolwyr, lle y bo'n gymwys)
- hunanasesu effeithiolrwydd ac effaith y prosiect; a gwersi a ddysgwyd wrth gynnal y prosiect

30. Roedd Cynllun Tystiolaeth 2015-16 Uned yr Iaith Gymraeg yn cynnwys ymrwymiad i wneud rhagor o waith i fireinio'r dangosyddion sydd wedi'u nodi ar gyfer Strategaeth y Gymraeg, er mwyn sicrhau eu bod mor ystyrlon â phosibl. Lluniwyd papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwil a chytunwyd arno eisoes a bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn gwneud y gwaith ar ddechrau 2016.

31. At hynny, cyhoeddir adroddiad sy'n nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a bennwyd bob blwyddyn. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol 2014-15 ar 17 Gorffennaf 2015 ac fe'i ceir yn:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150715-welsh-medium-annual-report-cy.pdf>

Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg

Asesiad o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2016-17

32. Cymerwyd camau, wrth baratoi'r gyllideb ddrafft eleni, i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i'r Gymraeg.

33. Cyhoeddwyd yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith (IIA) Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel dogfen annibynnol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 9 Rhagfyr 2015. Drwy fabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwaith gwerthuso rydym wedi meithrin dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol a geir ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth, yn unol â'n blaenoriaethau allweddol, tra'n targedu arian at y rhai sydd ei angen fwyaf. Mae hyn wedi ein galluogi i feithrin dealltwriaeth ehangach o effaith gyffredinol penderfyniadau gwario ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau allweddol drwy edrych ar faes darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn modd cyfannol.

34. Mae'r adroddiad integredig yn ystyried hawliau'r plentyn, trechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg drwy fabwysiadu dull datblygu cynaliadwy. Nid yw'r materion hyn yn annibynnol ar ei gilydd - maent yn cefnogi ac yn ategu ei gilydd. Er enghraifft, mae Cymru fwy cyfartal yn un o'n nodau llesiant i Gymru. Rydym am greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
35. Mae'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith yn ddogfen fwy penodol sy'n nodi'r newidiadau mwyaf sylweddol i gyllidebau tra'n nodi'r rhesymau dros ddiogelu cyllidebau penodol. Mae adroddiad yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft, yn nodi'r penderfyniad allweddol i ddyrannu £1.2m i leddfau effaith toriadau i'r cyllid ar gyfer y Gymraeg.
36. At hynny, rhoddwyd canllawiau i bob Adran ar asesu'r effaith ar y Gymraeg wrth baratoi eu cyllidebau drafft eleni. Er bod yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith yn canolbwyntio ar effeithiau strategol lefel uchel penderfyniadau gwario, drwy gydol y broses o gynllunio cyllidebau cynhelir asesiadau effaith yn unol â dull gweithredu'r Llywodraeth hon yn y meysydd hyn.

Asesiadau o effaith llunio polisiau

37. Mae ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg a phobl a chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu a gweithredu polisiau o fewn Llywodraeth Cymru.
38. Mae pob cyflwyniad i Weinidogion yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion nodi yn eu Cyngor i Weinidogion y rhwymedigaethau o dan bolisi'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r cyngor hwnnw. Mae hyn yn cynnwys yr asesiadau effaith penodol a ddatblygwyd sy'n berthnasol i'r cyngor. Yn benodol, dylai Cyngor i Weinidogion ddangos sut mae swyddogion wedi ystyried rhwymedigaethau'r Llywodraeth o dan Safonau'r Gymraeg.
39. Cafodd fframwaith newydd ar gyfer asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ei ddatblygu a'i lansio wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau ar gyfer llunio polisiau, gan gynnwys canllawiau, llawlyfr data a thempled er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi ystyried effaith eu penderfyniadau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
40. Mae swyddogion o Is-adran y Gymraeg yn helpu cydweithwyr ar draws portffolios gweinidogol i sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan annatod o raglenni a gweithgareddau.
41. At hynny, gyda phob prosiect a gefnogir gan gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, wrth werthuso prosiectau a cheisiadau am arian ystyrir y Gymraeg fel rhan o'r themâu trawsbynciol y mae'n rhaid i bob prosiect eu hystyried. Mae canllawiau ar gyfer pob cais yn nodi'n glir y gofynion sylfaenol o ran y Gymraeg. Pan na roddir digon o sylw i'r gofynion hyn, darperir cymorth a chyngor pellach gan Is-adran y Gymraeg sydd wedi llwyddo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol posibl i'r Gymraeg o fewn rhaglen 2014-2020.

Gwariant Ataliol

42. Wrth wario arian a ddyrannwyd gan Uned yr Iaith Gymraeg ar adnoddau ac atebion technolegol yn 2016-17, byddwn yn ystyried profiad tair blynedd o fuddsoddi mewn prosiectau technoleg, sydd wedi cael ei anelu at osod sylfaen gadarn ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ym maes technoleg, ac yn adeiladu ar y profiad hwnnw.
43. Yn 2016-17 byddwn yn parhau i ystyried sut y gall arwain at arbedion costau. Byddwn yn ymchwilio i'r canlynol:
- ffyrdd y gall cyfieithu peirianyddol leihau costau
 - ffyrdd y gall systemau llais i destun, adnabod siaradwyr a dyddiadur gynnig arbedion wrth drawsgrifio cyfarfodydd o bwys cyhoeddus
 - creu'r fframwaith a allai gyfuno'r uchod er mwyn arwain at ffyrdd o gyfleu byrdwn y sgwrs yn awtomatig i wrandawr nad yw'n siarad yr iaith sy'n cael ei siarad.
44. Buom yn rhoi arian grant i brosiectau yn Uned Technoleg Iaith Prifysgol Bangor, yn rhannol oherwydd gallwn weld y rôl y gall technolegau iaith ei chwarae o ran awtomeiddio prosesau y mae angen iddynt gael eu cyflawni gan bobl ar hyn o bryd. Mae adnabod llais yn un enghraifft o'r fath. Un o ganlyniadau technoleg adnabod llais yn y Gymraeg fwy cywir fydd galluogi sefydliadau megis Llywodraeth Cymru i gynnig systemau teleffoni dwyieithog a ysgogir gan lais, megis y rhai sydd eisoes yn cael eu cynnig yn Saesneg yn unig gan fanciau ym Mhrydain.
45. Rydym wedi ariannu astudiaethau achos er mwyn edrych ar effeithiau defnyddio ffordd newydd o drawsnewid gwefannau uniaith yn wefannau dwyieithog a allai, maes o law, gynnig atebion i alluogi sefydliadau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
46. Mae £500,000 wedi'i ddyrannu dros dro er mwyn ariannu prosiect Twf ar gyfer 2016-17. Prosiect Twf yw prif ymyriad Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo iaith o fewn y teulu, y mae arbenigwyr yn ystyried ei fod yn un o ddau faes pwysicaf cynllunio ieithyddol (addysg yw'r llall). Fel y nodir yn Strategaeth y Gymraeg *iaith fyw: iaith byw*, mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o deuluoedd lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw. Mae Twf yn brosiect arloesol a helaeth sydd â'r nod o annog rhieni/gofalwyr Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg â'u plant. Mae ganddo rwydwaith o swyddogion maes a leolir ledled Cymru sy'n cyfleu i rieni, darpar rieni a'r cyhoedd fanteision cyflwyno'r iaith o'r adeg y caiff eu plant eu geni a'u magu'n ddwyieithog.
47. Mae Llywodraeth Cymru, drwy fuddsoddi mewn mentrau i dargedu teuluoedd o adeg beichiogi a geni babanod, yn sicrhau y caiff negeseuon allweddol am allu plant i ddysgu mwy nag un iaith eu cyfleu. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu mai'r cyfnodau hollbwysig o ran datblygiad y llwybrau niwral ar gyfer iaith yn ymennydd baban yw rhwng yr enedigaeth a chwe mis oed ar gyfer geirfa a rhwng chwe mis a 12 mis ar gyfer gallu ieithyddol a lleferydd. Drwy ganolbwyntio ein mentrau yn

ystod y cyfnod hwn rydym yn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl a bod dwy iaith yn cael eu cyflwyno o enedigaeth, gan osgoi'r angen am ymdrechion, adnoddau a chostau ychwanegol wrth ddysgu'r iaith yn ddiweddarach yn eu bywyd.

Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth

48. Mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni fanteisio ar bob cyfle i sicrhau y bydd deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'u bod yn gyson â'r egwyddorion canlynol, sef:

- Eu bod yn gydnaws â natur ddwyieithog Cymru.
- Eu bod yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd.
- Eu bod yn parchu'r egwyddor y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Eu bod yn helpu i ddiogelu cymunedau Cymraeg traddodiadol.

Deddfwriaeth Cymru

49. Mae **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisiau, cyngor a chanllawiau sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli'n gynaliadwy. Roedd rhai grwpiau pwysig ac unigolion wedi dadlau y dylid cynnwys enwau lleoedd Cymraeg mewn deddfwriaeth o'r fath, er mwyn diogelu enwau Cymraeg o werth hanesyddol.

50. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a grŵp Mynyddoedd Pawb a gyflwynodd ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i '...ddarbwylo cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd'. Ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol hefyd yn gofyn am ganllawiau clir ar enwau lleoedd ac yn gwrthwynebu newid enwau lleoedd. Yn dilyn hynny cynhwysodd y pwyllgor argymhelliad yn ei adroddiad Cyfnod 1, sef:

'... fod Adran 33 (2) o'r Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol a bod y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn'.

51. Awgrymodd adroddiad y Pwyllgor y byddai cyfeiriad penodol ar enwau lleoedd yng nghofnodion yr amgylchedd hanesyddol, '... yn arwydd clir i awdurdodau cynllunio lleol a phartïon perthnasol eraill y dylai enwau lleoedd gael eu cofnodi ac y dylent gael eu hystyried yn benodol yng nghyd-destun diogelu treftadaeth'.

52. Yn ystod Cyfnod 2, cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru llunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd yng Nghymru ac i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad i'r rhestr honno. Cefnogwyd y diwygiadau hyn yng Nghyfarfod y Pwyllgor a byddant yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol. Mae'r Bil yng

Nglyfnod 3 ar hyn o bryd ac ar yr amod y bydd yn llwyddo i fynd drwy'r camau sy'n weddill o'r broses graffu, disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016.

53. Cafodd **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015 ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag ystyried y Gymraeg wrth gynllunio datblygu a rheoli datblygu:

- O dan Adran 11 o'r Ddeddf mae'n ofyniad cyfreithlon i awdurdodau cynllunio ystyried effaith Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal y cynllun fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hyn yn gosod y polisi a fynegwyd yn flaenorol yn PCC a TAN 20 ar sail statudol.
- Mae Adran 31 o'r Ddeddf yn egluro bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg pan fyddant yn penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r cais. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi pwys ychwanegol ar y Gymraeg o gymharu ag ystyriaethau perthnasol eraill.

54. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gan Gymru system gynllunio sy'n darparu penderfyniadau amserol, teg a chyson. Bwriedir i adrannau 11 a 31 mewn perthynas â'r Gymraeg ddod i rym yn y flwyddyn newydd. Mae'r gwaith o ddiweddarau'r polisi a'r canllawiau cynllunio er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn y Ddeddf wedi dechrau a bydd yn ymgynghori ynghylch newidiadau i TAN 20. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu awdurdodau cynllunio lleol i gasglu a dadansoddi tystiolaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol. Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu diffinio ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn arbennig o sensitif neu bwysig yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae gan y Comisiynydd rôl i'w chwarae yn y gwaith hwn.

55. Diben **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

56. Mae'r Ddeddf yn darparu cysylltiad cryf â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef *laith Fyw: laith Byw*, yn enwedig mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o werth yr iaith a chryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.

57. Mae'r Ddeddf wedi pennu nodau llesiant hirdymor, uchelgeisiol er mwyn adlewyrchu'r Gymru rydym am ei gweld yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod iaith Gymraeg sy'n ffynnu wrth wraidd y broses o ddiffinio Cymru gynaliadwy. Mae'n garreg filltir bwysig i'r iaith, sy'n tanlinellu ei statws swyddogol, a bydd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yn rhan o'r agenda ar gyfer dyfodol hirdymor Cymru.

58. Bwriedir i'r Ddeddf, drwy gynnwys "iaith Gymraeg sy'n ffynnu" fel rhan o'r saith nod llesiant ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a enwir, sicrhau bod dyfodol hirdymor yr iaith yn ganolog i amcanion a bennir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill.

59. Mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynir **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 2)** gerbron y Cynulliad erbyn diwedd 2015. Bydd y Rheoliadau yn gwneud y safonau yn benodol gymwys i 32 o Gyrrff ychwanegol. Cyflwynir setiau pellach o Rheoliadau gerbron y Cynulliad erbyn 22 Chwefror 2016 (sef y dyddiad cyflwyno olaf ar gyfer y Cynulliad hwn), ac ymdrinnir â phob un ohonynt yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth 2016. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r cyrrff hyn.
60. Bydd y Rheoliadau pellach hyn yn cwmpasu sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Prif Gwnstabiaid Heddluoedd, Awdurdod Tân ac Achub a Thribiwnlysoedd yng Nghymru.
61. Bydd caniatáu i'r Comisiynydd osod safonau ar y cyrrff ychwanegol hyn yn gwella'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn annog mwy o gysondeb o fewn sectorau a rhyngddynt.

Deddfwriaeth y DU

62. Weithiau, gall deddfwriaeth y DU effeithio ar y Gymraeg, yn enwedig yng nghydestun meysydd polisi annatganoledig. Un enghraifft barhaus o ddeddfwriaeth o'r fath yw Bil Mewnfudo Llywodraeth y DU sy'n cynnwys darpariaeth i osod gofynion o ran y Saesneg ar swyddi yn y sector cyhoeddus ledled y DU. Yng Nghymru, mae'r Bil yn darparu mai'r gofyniad ieithyddol fyddai'r Gymraeg neu'r Saesneg, gan adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg. Bu Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn a materion cysylltiedig â Llywodraeth y DU.

Information provided by the Minister for Education and Skills on budget provision to support the implementation of the Welsh Government's Welsh Medium Education Strategy and Local Authorities' Welsh in Education Strategic Plans (WESPS),

Welsh-medium education

1. Local authorities use funding from a number of sources to implement their Welsh in Education Strategic Plans (WESPs). Since April 2015, delivery of Welsh-language training and support for practitioners, language centres, late immersion projects and projects aimed at increasing rates of linguistic continuity, on a regional, local and school level form part of the programme of activities delivered through the Education Improvement Grant. Local authorities are asked to ensure that the programme of activities funded by the EIG reflect the priorities set out in their WESPs.
2. The Welsh-medium Education Strategy sets out the ambition of the Welsh Government for a country where Welsh-medium education and training are integral parts of the education infrastructure and a place where all learners develop their Welsh-language skills to their full potential.
3. The Welsh-medium Education Strategy included a five-year Implementation Programme, and fixed five-year and indicative ten-year targets based on outcomes, which have been used to monitor progress in implementing the Strategy. The fifth annual report on progress in implementing the Strategy was published in July. Not all targets have been achieved, however, progress has been made against four of them, and the highest numbers of seven year old children now receive Welsh-medium education.
4. A comprehensive evaluation of the Strategy has been undertaken and the final report is expected to be published in March. This evaluation will set the future direction and the allocation of budget in the next Assembly term will need to take account of this.
5. We are protecting our funding to education, including Welsh medium and bilingual schools, who receive their main funding from local government. Welsh language is an integral part of the implementation of the Curriculum review and Welsh medium, and bilingual schools are part of the Pioneer network of schools developing the curriculum and New Deal. We have made reductions in certain areas where activities are outside of schools where the impact will be manageable, to enable prioritisation of spend to schools
6. A ministerial review, Raising our Sights: Review of Welsh for Adults was published in July 2013. The principal recommendation was to establish a national entity to lead Welsh for Adults strategically at a national level. The University of Wales Trinity Saint David was successful through a competitive grant process and they are now hosting the new Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (National Centre for Learning Welsh).

7. The Review Group also identified the need to reduce the number of providers in order to avoid duplication, improve value for money and ensure that all providers have sufficient volume of provision to develop expertise and benefit from increased efficiency through economies of scale. This rationalisation process is currently being undertaken by the Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
8. The total budget allocated to support Welsh for Adults in 2016-17 is £10.535m. This is a reduction of £0.5m against our original allocation for the sector. During the current transitional period the budget supports the existing six Welsh for Adult centres until July 2016 and the new Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. From August 2016, this budget will support the activities of the Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol only, therefore the reduction is expected to be manageable.

Legislation

9. The budget continues to take account of our current legislative programme. A table setting out the costs for 2016-17, of both previously enacted legislation and anticipated costs of Bills at published RIA stage or enactment, has been published alongside the Draft Budget narrative, Annex D. A more detailed update on the costs of our legislative programme relevant to the remit of this Committee is provided below.

School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

10. The School Standards and Organisation (Wales) Act received Royal Assent on 4 March 2013. As part of its implementation, and actioned in Draft Budget 2013-14, funding of £21.8m for school based counselling and school breakfasts transferred to the Revenue Support Grant within Local Government MEG from 2013-14 onwards. This funding continues to form part of RSG allocation for 2016-17.
11. Under the Act, local authorities are accountable for planning Welsh-medium provision and Welsh Education Strategic Plans became statutory from April 2014. The implementation of the WESPs will continue to be supported through funding for the Welsh in Education Grant which has been transferred into the new single amalgamated Education Improvement Grant for schools from 2015-16.